**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG DE-ORLLEWIN CYMRU**

**(O Bell Trwy Teams)**

| **Aelodau sy’n Bresennol:** | **Dydd Mawrth, 26 Gorffennaf 2022** |
|---|---|
| **Cynghorwyr**: | R.Stewart (Cadeirydd) , A.Lenny, P.Miller, a/ac S.K.Hunt |
| **Parc Cenedlaethol Cynrychiolwyr:** | A.Edwards, T.Jones and D.Clements |
| **Swyddogion sy’n Bresennol:** | M.Nicholls, W.Bramble, M.Ronan, C.Griffiths, C.Moore, R.Arnold, Jones, O.Enoch, D.Thomas, N.Pearce, S.Pilliner, D.Griffiths a/ac C.Plowman |

---

1. **CROESO**

Croesawodd Swyddog Monitro Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru, bawb i'r cyfarfod.

2. **PENODI CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cynghorydd Rob Stewart (Cyngor Sir Abertawe) yn Gadeirydd, a bod y Cynghorydd Darren Price (Cyngor Sir Gâr) yn Is-Gadeirydd Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

4. **CYFANSODDIAD Y CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG**

Darparwyd trosolwg o'r adroddiad a ddosbarthwyd gan Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru, lle amlygwyd y pwyntiau canlynol:

- Yr awydd i sefydlu pedwar is-bwyllgor ar wahân i Gyd-bwyllgor Corfforedig De Orllewin Cymru (yr oedd manylion amdanynt

wedi'u cynnwys yn yr adroddiad a ddosbarthwyd). Nodwyd nad oedd dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd yr is-bwyllgorau hyn wedi'u penderfynu eto, ac y byddant yn cael eu trefnu'n ôl y galw;

- Y gofyniad i sefydlu Is-Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Yn dilyn trafodaethau diweddar â phartneriaid rhanbarthol, cadarnhawyd bod aelodaeth y cyfarfod hwn wedi'i sefydlu;

- Y gofyniad i sefydlu Pwyllgor Safonau. Penderfynwyd o'r blaen y byddai un Pwyllgor Safonau'r Cyngor Cyfansoddol yn derbyn y cyfrifoldeb o oruchwylio safonau ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru. Cynigiwyd mai Cyngor Castell-nedd Port Talbot fyddai'n gyfrifol am y swyddogaeth hon, yn amodol ar gymeradwyaeth Aelodau.

- Y gofyniad i sefydlu Is-Bwyllgor Trosolwg a Chraffu. Hysbyswyd yr aelodau fod y cyfarfod cyntaf wedi'i drefnu ar gyfer mis Medi 2022, a bydd cyfres o gyfarfodydd rheolaidd yn parhau wedi hynny.

- Datblygwyd amserlen cyfarfodydd arfaethedig Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru, a bydd Blaenraglen Waith hefyd yn cael ei datblygu i hysbysu Aelodau o'r eitemau i'w hystyried ym mhob cyfarfod.

Amlygwyd bod yr adroddiad a ddosbarthwyd yn benodol o ran y ffaith y byddai Prif Weithredwr arweiniol yn cael ei benodi i'r is-bwyllgorau, ac awgrymwyd y byddai'n fanteisiol i newid hyn i Swyddog Arweiniol o bob Cyngor Cyfansoddiadol. Hysbyswyd Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru y gallai'r newid hwn gael ei gynnwys yn y dogfennau.

Yn ystod cyfarfod blaenorol Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru, nodwyd y byddai cyfarfod yn cael ei drefnu gyda Llywodraeth Cymru er mwyn trafod materion yn ymwneud ag Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, ac egluro eu cyfraniad i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig ledled Cymru. Gofynnwyd i Swyddogion a oedd unrhyw ddiweddariadau ar hyn. Cadarnhawyd bod Swyddogion Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru wedi mynd i gyfarfod gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), er mwyn ceisio cael eglurder ynghylch Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol. Yn dilyn y cyfarfod hwn, cyhoeddwyd gohebiaeth a oedd yn rhoi trosolwg o'r darpariaethau statudol mewn perthynas â'r Parciau Cenedlaethol;

fodd bynnag, caiff trafodaethau pellach a manylach eu cynnal yn y misoedd i ddod. Esboniodd Swyddogion y bydd canlyniadau unrhyw gyfarfodydd yn cael eu cyflwyno i Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru.

**PENDERFYNWYD:**

Bod Aelodau'n cymeradwyo sefydlu'r is-bwyllgorau a nodwyd ym mharagraff 8 o'r adroddiad a ddosbarthwyd, a'r cynrychiolwyr arfaethedig a benodwyd i'r is-bwyllgor a nodir ym mharagraff 9 o'r adroddiad a ddosbarthwyd;

Bod Aelodau'n cymeradwyo sefydlu'r Pwyllgor Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru fel y nodir ym mharagraffau 12-17 o'r adroddiad a ddosbarthwyd;

Bod Aelodau'n cymeradwyo dynodi Pwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot fel Pwyllgor Safonau Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru;

Bod Aelodau'n cymeradwyo sefydlu Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru fel y nodir ym mharagraffau 21-26 o'r adroddiad a ddosbarthwyd;

Bod Aelodau'n cymeradwyo'r amserlen ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru fel y nodir ym mharagraff 27 o'r adroddiad a ddosbarthwyd.

## 5. AELODAU CYFETHOLEDIG Y CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor yn ymwneud â phenodi aelodau cyfetholedig ar Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru; nodwyd hyn fel rhan o'r cyfansoddiad er mwyn cael, ac ystyried, brofiadau a gwybodaeth gwahanol sefydliadau. Roedd Swyddogion yn argymell bod Aelodau yn ystyried cynrychiolwyr cyfetholedig o ddau fwrdd iechyd lleol sy'n gwasanaethu'r ardal, ynghyd â'r ddwy brifysgol. Nodwyd y pedwar unigolyn ac fe'u rhestrwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Eglurwyd y byddai'r Aelodau cyfetholedig yn ymuno â'r cyfarfodydd fel arsylwyr a chyfranwyr; ni fyddai ganddynt hawliau pleidleisio, ac ni fyddent yn gallu cymryd rhan wrth gytuno ar flaenoriaethau, gan y byddai hyn yn aros gydag aelodau cyngor cyfansoddol Cyd-bwyllgor

Corfforedig De-orllewin Cymru (ac Awdurdodau'r Parc Cenedlaethol ar gyfer swyddogaethau cynllunio strategol). Yn amodol ar gymeradwyaeth yr argymhellion, hysbyswyd yr aelodau y bydd y Swyddog Monitro Arweiniol yn rhoi cytundebau cyfethol, gyda'r nod y bydd yr aelodau cyfetholedig yn gallu cymryd eu lle ar Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru o fis Medi ymlaen.

**PENDERFYNWYD:**

Bod Aelodau'n cytuno, ar ôl derbyn cytundeb cyfethol wedi'i lofnodi, ac ar y telerau a nodwyd ym mharagraff 8 o'r adroddiad a ddosbarthwyd, fod y cynrychiolwyr canlynol yn cael eu cyfethol i'r CBC:
(a) Mr Steven Wilks, Profost Prifysgol Abertawe
(b) Mr Medwin Hughes, Is-ganghellor Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
(c) Ms Maria Battle, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
(ch) Ms Emma Woolett, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

## 6. <u>CYFLWYNIAD GAN SWYDDOGION CLUDIANT</u>

Cafodd yr aelodau gyflwyniad gan Swyddogion Trafnidiaeth ar Ddatblygu Trafnidiaeth ac Isadeiledd, a oedd yn nodi’u sefyllfa bresennol, yn enwedig cynllunio trafnidiaeth ar draws y rhanbarth.

Amlygodd y cyflwyniad y meysydd allweddol canlynol:

- Yr ysgogwyr polisi fydd yn llunio'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh)
- Gwybodaeth ynglŷn â hanes cynllunio trafnidiaeth
- Y trefniadau llywodraethu a'r strwythur sydd ar waith ar hyn o bryd
- Y galluogwyr sy'n ymwneud â chanllawiau'r CTRh a'r amserlen i gyflawni'r cynllun
- Y gwaith sydd wedi bod yn mynd rhagddo o ran paratoi ar gyfer y dyfodol
- Yr uchelgais ar gyfer y dyfodol
- Cyflwyno prosiectau, gan gynnwys y gwaith parhaus ar draws y rhanbarth i gefnogi symud nwyddau a phobl
- Y strwythur, y llywodraethu a'r adnodd cyflenwi sydd eu hangen i ddarparu'r CTRh

<u>Ysgogwyr Polisi</u>

O ran ysgogwyr polisi, eglurwyd bod Cynllun Cenedlaethol Cymru'r Dyfodol yn: Nodi'r blaenoriaethau ar gyfer cynllunio defnydd tir ar gyfer y dyfodol a bydd datblygu hyn yn llunio symudiad nwyddau a phobl yn y dyfodol.

Dywedodd Swyddogion fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Strategaeth Trafnidiaeth Cymru yr hydref diwethaf, a oedd yn amlinellu'r weledigaeth ar gyfer trafnidiaeth. Diben y weledigaeth oedd darparu system drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon, a oedd yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau ynghylch pobl a newid yn yr hinsawdd. Amlygwyd mai uchelgais y strategaeth oedd cael llai o geir ar y ffordd, a chael pobl i ddefnyddio cludiant cyhoeddus yn fwy. Yn ogystal, manylodd y strategaeth ar flaenoriaethau dod â gwasanaethau'n agosach at bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio, gan ganiatáu i bobl a nwyddau symud yn rhwydd o ddrws i ddrws; canolbwyntiodd hefyd ar ddatblygu cludiant cyhoeddus, a cherdded a beicio, trwy'r blaenoriaethau teithio llesol.

Ychwanegwyd y bydd cludiant cyhoeddus, a'r uchelgais sy'n ymwneud â hyn, yn debygol o fod angen newidiadau i ddeddfwriaeth bysus yn y dyfodol. Amlygwyd bod y gwaith o ddiwygio bysus a oedd yn cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru yn parhau o hyd; ac roedd yr adolygiad ffyrdd hefyd yn dal i gael ei ddatblygu.

<u>Hanes</u>

Cyn 2006, eglurwyd mai cyfrifoldeb yr awdurdod lleol oedd cynllunio a darparu trafnidiaeth. Ychwanegodd Swyddogion y diwygiwyd Deddf Trafnidiaeth (Cymru) wedyn i symud y cyfrifoldeb yn rhanbarthol ac o 2006 i 2013 sefydlwyd corff cyfansoddiadol Consortiwm Cludiant Integredig De-orllewin Cymru (SWWITCH), lle bu'r pedwar awdurdod lleol yn cydweithio i lunio cynllun trafnidiaeth rhanbarthol.

Nodwyd bod Deddf Trafnidiaeth (Cymru) wedi'i diwygio ymhellach yn 2014, ac o hynny ymlaen cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol ydoedd eto; fodd bynnag, cydweithiodd y rhanbarth i gyflawni'r cynllun trafnidiaeth lleol ar y cyd ar gyfer gorllewin Cymru.

Soniodd Swyddogion fod y rhanbarth yn amrywiol iawn, gyda chymunedau gwledig yn bennaf i'r gorllewin, a chymunedau trefol i'r dwyrain; bydd angen canolbwyntio ar y gwahaniaethau hyn wrth ddatblygu'r cynllun yn y dyfodol.

<u>Llywodraethu a Strwythur</u>

Hysbyswyd yr aelodau fod cydweithio wedi parhau a bod Swyddogion yn cyfarfod yn fisol, ac roedd Aelodau'r Cabinet dros drafnidiaeth yn cyfarfod bob chwarter, drwy'r fforwm trafnidiaeth rhanbarthol. Soniwyd nad trefniant wedi ei gyfansoddi'n ffurfiol oedd y fforwm hwn, ac roedd penderfyniadau ynghylch trafnidiaeth, hyd at y pwynt hwn, wedi'u gwneud gan awdurdodau lleol unigol.

Tynnodd Swyddogion sylw at y ffaith bod grwpiau amrywiol o Swyddogion wedi'u sefydlu dan y fforwm hwn i fwrw ymlaen â'r gwaith cydweithredol sy'n ymwneud â chynllunio trafnidiaeth, darparu rhaglenni, ymateb i ymgynghoriadau a chyfraniad i ddatblygiad prosiect y Metro gyda Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru.

O ran elfen cludiant cyhoeddus y ffrydiau gwaith, nodwyd bod y Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau yn cael ei weinyddu ar y cyd rhwng Sir Gâr ac Abertawe ar draws y rhanbarth.

Yn ogystal â'r uchod, roedd amryw o grwpiau *ad hoc* hefyd yn canolbwyntio ar deithio llesol, diogelwch ffyrdd a pharcio.

Eglurwyd hefyd fod contractau caffael ar waith ar gyfer y rhanbarth, a oedd yn ymdrin â gwasanaethau dylunio proffesiynol ar gyfer datblygu isadeiledd ac adeiladu, yn ogystal â chydweithio ynghylch caffael cerbydau.

Arweiniad ac Amserlenni'r CTRh

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r galluogwyr allweddol yr oedd angen iddynt fod ar waith er mwyn i Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru ddatblygu'r CTRh. Roedd y canllawiau cynllunio trafnidiaeth rhanbarthol yn hollbwysig yn hyn o beth, a byddant yn llunio natur y gwaith y byddai ei angen er mwyn datblygu'r CTRh i'r Aelodau ei ystyried. Soniodd Swyddogion fod Llywodraeth Cymru i fod i gyhoeddi'r canllawiau yn ystod cyfnod yr hydref. Cyfeiriwyd hefyd at y datganiad cyllid a fydd ar gael o ran cyflwyno'r CTRh, yn ogystal â sôn am y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol, a fydd yn pennu'r blaenoriaethau trafnidiaeth cenedlaethol.

Amlygwyd bod Swyddogion wedi dechrau creu amcanion polisi i'w hystyried a threfnwyd y byddai adroddiad manwl yn ymwneud â chyd-destun polisi yn cael ei gyflwyno i Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru yng nghyfarfod mis Medi. Nodwyd y gwahanol amcanion yn y cyflwyniad a ddosbarthwyd; roedd gan y rhan fwyaf ohonynt ffocws clir ar ddatblygu economaidd, yn ogystal â symud yn gynaliadwy ar draws y rhanbarth ac i'r rhanbarth.

Esboniodd Swyddogion y bydd angen i'r CTRh hefyd ystyried y rhyngddibyniaethau rhanbarthol; y rhain oedd y strategaethau eraill a oedd yn pennu natur symudiad ar draws y rhanbarth:

- Cynllun Datblygu Economaidd
- Cynllun Datblygu Strategol
- Cynllun Ynni
- Strategaeth Ddigidol
- Bargen Ddinesig

Paratoi ar gyfer y dyfodol

Hysbyswyd Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru fod gan Lywodraeth Cymru ddyheadau i ddarparu systemau trafnidiaeth Metro; roedd tair ar draws Cymru gan gynnwys Gogledd Cymru, y De-ddwyrain a De-orllewin Cymru. Soniwyd bod unrhyw geisiadau am gyllid ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth yn gorfod ystyried canllawiau arfarnu trafnidiaeth Cymru.

Cyfeiriodd Swyddogion at y prosiectau canlynol, a oedd ar y gweill:

- Modelu Trafnidiaeth – gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru i ddeall natur symudiad a'i effaith ar yr isadeiledd
- Achos Busnes Hybiau Trafnidiaeth – paratoi ar gyfer buddsoddi yn yr hybiau trafnidiaeth
- Achos Busnes Bysus - bydd y gwaith hwn yn llywio'r system cludiant gyhoeddus ar gyfer y dyfodol
- Isadeiledd Teithio Llesol – datblygu o gwmpas yr hybiau a'r gorsafoedd er mwyn i bobl deithio'n gynaliadwy a chysylltu â'r isadeiledd
- Strategaeth Cerbydau Allyriadau Isel Iawn - bydd y gwaith hwn yn gysylltiedig â'r Strategaeth Ynni

Uchelgais

Roedd y cyflwyniad a ddosbarthwyd yn manylu ar y cyfrifoldebau trafnidiaeth yng Nghymru. Dywedwyd bod gan haenau amrywiol o Lywodraeth gyfrifoldebau gwahanol, yr oedd rhai ohonynt wedi'u datganoli; roedd y tabl a oedd yn gynwysedig yn y cyflwyniad, yn dangos pwy oedd yn atebol am gyfrifoldebau penodol.

Cafwyd trafodaeth bellach mewn perthynas â'r cyfrifoldebau hyn, yn enwedig yr arweinwyr ar bob maes a darparu'r gwasanaeth trafnidiaeth.

Soniodd Swyddogion am y gwahanol astudiaethau sydd wedi bod ar y gweill gan Lywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru; gan gynnwys astudiaethau’n ymwneud â gwella amlder rheilffyrdd a gwelliannau i goridorau bysus. Dywedwyd bod gwaith yn parhau a oedd yn canolbwyntio ar edrych ar gysylltedd strategol y rhanbarth ar y rhwydwaith rheilffyrdd, yn benodol ar brif linell de Cymru; roedd hyn yn bwysig oherwydd tagfeydd ar y rhwydwaith rheilffyrdd i'r dwyrain.

Yn ogystal â'r uchod, roedd gwaith yn parhau i'r hyn sy'n digwydd o fewn y rhanbarth o ran amlder a chysylltedd y gwasanaeth; roedd amser teithio’n ffactor hollbwysig, yn enwedig teithiau i'r gorllewin. Eglurwyd nad oedd teithio ar y rheilffordd yn gallu cystadlu â theithio mewn car yn y maes arbennig hwn, ac felly gallai ddioddef o ganlyniad.

Nodwyd bod gwaith wedi'i wneud yn fwy diweddar i ddatblygu'r gwaith yn ymwneud â choridor Metro a bysus trefol er mwyn cefnogi system drafnidiaeth integredig ac roedd blaenoriaethau mwy yn dod i'r amlwg ynghylch y rhwydwaith trefol a'r potensial ar gyfer Metro trefol.

Cafwyd trafodaeth fer mewn perthynas â'r prosiectau tymor hwy; er enghraifft edrych ar y defnydd o reilffyrdd rhwng Rhydaman a Gwauncaegurwen, yn ogystal â chysylltiadau o Abertawe i Gastell-nedd, ac o Gastell-nedd i’r Onllwyn a Chwmgwrach.

Hysbyswyd Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru o rywfaint o'r gwaith cyffrous oedd yn cael ei wneud o ran trafnidiaeth a datgarboneiddio, wrth weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru. Trafododd Swyddogion y cynlluniau i ddefnyddio bysus trydan ar y llwybr rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin o ddechrau'r flwyddyn nesaf, yn ogystal â'r cynllun ar gyfer defnydd posib bysus hydrogen o gwmpas yr ardaloedd trefol. Soniwyd bod y bysus hydrogen ar gam cysyniad cynnar, ac roedd Swyddogion yn ymchwilio i ddichonoldeb hyn.

Dywedodd Swyddogion ei bod yn bwysig nodi bod y sector trafnidiaeth mewn cyflwr o drawsnewid o ran ystyried y ffynhonnell bŵer gywir ar gyfer y dyfodol; bu trydan yn gyffredin yn y sector cerbydau ysgafn, fodd bynnag roedd hydrogen yn cael ei weld yn amlach.

O ran y coridor bysus strategol, nodwyd y byddai gwaith yn mynd rhagddo i edrych ar ddatgarboneiddio'r rhwydwaith wrth i'r prosiect hydrogen fynd rhagddo.

O ystyried yr uchelgais ynghylch trafnidiaeth bysus, eglurwyd bod llawer o ryngddibyniaethau. Roedd gwahanol agweddau y bydd angen buddsoddi ynddynt er mwyn llywio'r rhwydwaith bysus yn unol â hynny. Hysbyswyd yr aelodau fod y diwygiad deddfwriaethol yn rhan bwysig o hynny. Unwaith y bydd y CTRh yn penderfynu ar y blaenoriaethau polisi a'r buddsoddiad sydd ei angen, bydd hyn wedyn yn llywio isadeiledd a buddsoddiad y coridor bysus. Cyfeiriwyd at y strategaeth datgarboneiddio bysus, a'r angen i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn amser go iawn ar gyfer cwsmeriaid, yn ogystal ag ystyried safonau gwybodaeth teithwyr ac integreiddio tocynnau.

<u>Cyflwyniad presennol y prosiect</u>

Roedd y cyflwyniad a ddosbarthwyd yn manylu ar y gwahanol brosiectau a'r ffrydiau gwaith a oedd yn cael eu cyflwyno ar hyn o bryd dan feysydd trafnidiaeth. Amlygwyd y prif bwyntiau canlynol:

- **Isadeiledd Priffyrdd**
  - Adlinio Ffordd Gerbydau’r Cymer
  - Buddsoddiad Ffordd Gyswllt Cross Hands
  - Cyllid Llwybrau Diogel mewn Cymunedau (LlDC) a'r Grant Diogelwch Ffyrdd Lleol (GDFfLl) - buddsoddiadau mewn isadeiledd oedd y rhain a gynlluniwyd i annog pobl i deithio'n gynaliadwy ac yn ddiogel, yn enwedig o gwmpas llwybrau cerdded
  - Atgyweirio ffyrdd a ddifrodwyd gan stormydd drwy gyllid Ffyrdd Cydnerth – o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, a'r stormydd a gafwyd, roedd rhai priffyrdd wedi cael eu difrodi; Roedd Swyddogion wedi derbyn cyllid i allu atgyweirio peth o'r isadeiledd hwnnw.

- **Isadeiledd Cerbydau Trydan (CT)**
  - Hybiau Gwefru Strategol yn Cross Hands ac Abertawe ganolog
  - Gorsafoedd Gwefru Cyhoeddus – roedd y gwaith hwn yn cael ei wneud ar draws yr holl awdurdodau
  - Tacsis Trydan - roedd cynllun peilot yn cael ei gynnal yn Sir Benfro

- **Isadeiledd Cludiant Cyhoeddus**
  - Hybiau/Cyfnewidfeydd Bysus – mae nifer yn cael eu hystyried a/neu eu darparu ar draws y rhanbarth ym mhob un o'r awdurdodau

- Cynlluniau Trafnidiaeth Seiliedig ar Alw (TSA) - roedd y rhain yn cael eu cynnal mewn gwahanol ardaloedd gwledig gan gynnwys Sir Benfro a Sir Gâr

- **Isadeiledd Teithio Llesol**
  - Roedd nifer o ffrydiau gwaith yn cael eu cynnal yn ymwneud â theithio llesol; roedd newid mewn blaenoriaethau gan Lywodraeth Cymru wedi effeithio ar lefel y buddsoddiad

- **Isadeiledd Rheilffyrdd**
  - Gorsaf Drenau Sanclêr – hon fydd yr orsaf newydd gyntaf, a gafodd ei hariannu gan Lywodraeth y DU

<u>Strwythur, Llywodraethu ac Adnoddau Cyflenwi</u>

Hysbyswyd yr Aelodau fod rhai ystyriaethau allweddol o ran cael yr adnodd yn ei le i gyflawni'r gwaith yr oedd ei angen i ddatblygu'r gwaith o gynllunio trafnidiaeth ranbarthol.

Amlygwyd na fyddai modd cyflwyno rhaglenni gwaith yn seiliedig ar y lefel bresennol o adnoddau. Cadarnhawyd hyn hefyd gan ranbarthau eraill ledled Cymru, a oedd mewn sefyllfa debyg.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r manylion ynghylch gofynion lefel yr adnoddau. Manylwyd ar yr adnoddau amrywiol a'r gyllideb i gyflawni'r gwaith yn y cyflwyniad, gan gynnwys trefnu bod Swyddog Arweiniol Datblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol y Rhaglen yn ei le ar gyfer chwarter olaf y flwyddyn ariannol hon, yn ogystal â Hyfforddai Graddedig i gefnogi elfennau o'r gwaith.

Ychwanegwyd, ar sail y canllawiau sy'n dod o Lywodraeth Cymru, a phrofiad blaenorol gyda'r hen gynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol, ei bod yn debygol y byddai gofyniad am astudiaethau arbenigol.

Ar sail trafodaethau ynglŷn ag adnoddau a chyllideb, tynnwyd sylw at y ffaith bod angen i Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru lobïo Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i sicrhau eu bod yn blaenoriaethu ac yn ariannu'r gwaith angenrheidiol yn y rhanbarth. Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu llythyr at Weinidogion, er mwyn codi arian y gofynnwyd amdano ac i roi dadl dros fwrw ymlaen cyn gynted â phosib â'r rhaglen waith.

Roedd yr Aelodau'n ystyriol o'r angen i bob cymuned ar draws y rhanbarth gael eu cysylltu ac elwa o'r rhwydwaith hwn; fodd bynnag, gwerthfawrogwyd bod y ffrwd waith hon yn dal yn y camau datblygu

cynnar. Dywedwyd y dylai'r canlyniad terfynol adlewyrchu gwasanaeth dibynadwy a fforddiadwy sy'n cyrraedd cymunedau, gyda'r rhwydwaith gorau posib.

Codwyd ymholiad ynghylch sut y byddai blaenoriaethau pob un o'r awdurdodau lleol yn cyfrannu at y gwaith sy'n cael ei wneud a'r hyn yr oedd y rhanbarth wedi cytuno ar y cyd yr oedd angen ei flaenoriaethu. Yn ogystal, gofynnodd Aelodau pa ddulliau atebolrwydd oedd wedi'u sefydlu o ran llywodraethu; a pha strwythurau oedd ar waith i sicrhau darpariaeth yn ein hamserlenni angenrheidiol.

Dywedwyd bod cyfle drwy'r broses cynllunio trafnidiaeth ranbarthol i lunio sut beth yw trafnidiaeth yn y dyfodol. Eglurodd Swyddogion y bydd y CTRh yn gosod y polisïau ar gyfer y rhanbarth, a bydd yr isadeiledd a'r buddsoddiad yn dilyn y polisïau hynny; byddai hyn yn dod i'r amlwg unwaith y cyhoeddwyd y canllawiau cynllunio trafnidiaeth ranbarthol gan Lywodraeth Cymru.

Yn dilyn yr uchod, nodwyd bod gwaith ar hyn o bryd yn mynd rhagddo gyda'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol a bydd y canllawiau cynllunio trafnidiaeth rhanbarthol yn ei ddisodli'n fuan. Mynegodd Swyddogion bwysigrwydd yr astudiaethau presennol a oedd yn cael eu cynnal, gan eu bod yn darparu sylfaen dystiolaeth i lywio'r hyn sy'n cael ei gyflwyno o ran y blaenoriaethau hynny.

Nodwyd mai elfen bwysig arall oedd lefel y buddsoddiad oedd yn mynd i fod ar gael ar gyfer y rhanbarth. Amlygwyd, er mwyn buddsoddi yn y gwelliannau oedd wedi'u trafod o ran yr isadeiledd; y bydd hyn yn dod drwy'r datganiad cyllid.

Roedd Swyddogion eisoes wedi sôn am greu'r is-bwyllgorau, a fydd yn rhan o Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru. Tynnwyd sylw at y ffaith y bydd un o'r is-bwyllgorau’n canolbwyntio ar drafnidiaeth; bydd hyn yn cael ei ffurfioli ymhellach ym mis Medi, gan y bydd angen i Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru ystyried yr amcanion trafnidiaeth i'r is-bwyllgor hwnnw eu symud yn eu blaen.

Dywedwyd bod y canllawiau gaiff eu llunio gan Lywodraeth Cymru yn yr hydref, yn hollbwysig ac y dylent adlewyrchu'r hyn oedd yn Strategaeth Trafnidiaeth Cymru; yn ogystal ag adlewyrchu peth o'r gwaith parhaus o ran datblygiad y Metro.

Ychwanegodd y Cadeirydd fod blaenoriaethau trafnidiaeth yn cael eu trafod yn ehangach ar draws y rhanbarth, er enghraifft yng Nghydbwyllgorau Craffu Dinas-Ranbarth Bae Abertawe; roedd

blaenoriaethau'n cael eu datblygu drwy'r fforwm hwn, a byddant yn debygol o gysylltu â blaenoriaethau y gall Aelodau eu trafod mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Dywedodd yr Aelodau y byddai angen trafodaeth bellach ar ryw adeg yn y dyfodol ynglŷn â'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt a'r drefn ar gyfer eu cyflawni. Gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth ynglŷn â phryd y byddai angen i hynny ddigwydd a phwy fyddai'n rhan o'r trafodaethau hyn.

Cadarnhawyd y byddai'r mathau yma o drafodaethau'n rhan o'r cam nesaf. Dywedwyd y byddai angen i ganlyniad y trafodaethau hyn gyd-fynd â chynlluniau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran eu portffolios buddsoddi a'u blaenoriaethau, gan y byddent yn darparu'r cyllid ar gyfer y gwaith. Hysbyswyd yr aelodau fod sesiwn yn cael ei threfnu yn y dinas-ranbarth ynghylch y prosiectau mawr a oedd ar y gweill; byddai isadeiledd y Metro a thrafnidiaeth yn rhan o'r sesiynau hyn. Ychwanegwyd y bydd cyfle i'r Aelodau archwilio rhai o'r agweddau gwleidyddol o ran rhai o'r prosiectau mawr.

**PENDERFYNWYD:**

Bod Cadeirydd Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru yn ysgrifennu llythyr, wedi ei gyfeirio at Weinidogion Cymru, ynglŷn â cheisiadau am gyllid ac i roi dadl dros sicrhau bod gan y rhaglen waith trafnidiaeth gefnogaeth briodol ar waith.

## 7. <u>EITEMAU BRYS</u>

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**